# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 18 Gorffennaf 2012** |
| Amser: | **08:30 - 12:40** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_800000_18_07_2012&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Dr Chris Jones, Llywodraeth Cymru**<br>**David Sissling, Director General for Health and Social Services, Llywodraeth Cymru**<br>**Shane Brennan, Association of Convenience Stores**<br>**John Dyson, British Hospitality Association**<br>**Brigid Simmonds, British Beer and Pub Association** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Fay Buckle (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Philippa Watkins (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Nid oedd dim ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2. Ystyried gohebiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Athro Marcus Longley

2.1 Bu'r Pwyllgor yn holi'r Athro Marcus Longley ynghylch yr ohebiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac yntau.

2.2 Bu'r Pwyllgor yn holi Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, David Sissling a Dr Chris Jones ynghylch yr ohebiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Athro Marcus Longley.

2.3 Oherwydd problemau technegol, gohiriwyd y Pwyllgor rhwng 9.32 a 10.05.

## 3. Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru): Cyfnod 1 - Sesiwn dystiolaeth 4

3.1 Oherwydd y problemau technegol yn gynharach a'r cyfyngiadau amser, cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Cadeirydd ysgrifennu ati gyda'r cwestiynau y byddai'r Aelodau wedi eu gofyn a bydd yn ymateb i'r Pwyllgor yn ysgrifenedig.

## 4. Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru): Cyfnod 1 - Sesiwn dystiolaeth 4

4.1Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas y Siopau Cyfleus, Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain a Chymdeithas Lletygarwch Prydain.

## 5. Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Mehefin a 4 Gorffennaf.

5.1 Yr ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn: nodiadau o'r cyfarfodydd o'r grwpiau cyfeirio a gynhaliwyd ar 24 Mai a 12 Mehefin

5.2 Nododd y Pwyllgor y papurau.

5.3 Cofnododd y Cadeirydd ddiolch y Pwyllgor am y gwaith, a'r cyfraniad gwerthfawr, a wnaeth aelodau'r Grŵp Cyfeirio, a sefydlwyd i gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn.

## 6. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 7. Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru): y prif faterion

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y papur materion allweddol a chytunodd arnynt a gwnaeth rhai awgrymiadau ar gyfer yr adroddiad.

## 8. Yr ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn: y prif faterion

8.1 Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol ar gyfer yr adroddiad ar yr ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn a chytunodd arnynt.